Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Datganiad Polisi Cynaliadwyedd

Rheolwr Cyfrifol	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf	Mawrth 2020
Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf	Mawrth 2019
Fersiwn	5.0
Mae'r ddogfen Polisi hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mewn fformatau gwahanol ar gais. Mae'r dogfennau a'r cyfarfodydd sy'n ategu gweithredu'r polisi hwn ar gael hefyd yn y Gymraeg a'r Saesneg (efallai y bydd hynny'n golygu y bydd angen defnyddio cyfieithydd). Hefyd, gellir gwneud addasiadau rhesymol, megis darparu dogfennau mewn fformatau gwahanol, ar gais.	

1.0 Cyflwyniad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ymrwymedig i arferion cynaliadwy.

Mae ein Polisi Cynaliadwyedd yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Cydymffurfio â, a mynd gam ymhellach na phob deddfwriaeth, rheoliad a chod ymarfer cymwys pan fo hynny'n ymarferol.

- Integreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd i'n penderfyniadau busnes pan fo hynny'n bosibl.

- Sicrhau bod yr holl staff yn hollol ymwybodol o'n Polisi Cynaliadwyedd a'u bod yn ymrwymedig i'w roi ar waith a'i wella.

- Lleihau effaith pob gweithgaredd swyddfa a theithio ar gynaliadwyedd.

- Sicrhau bod cyflenwyr yn ymwybodol o'n Polisi Cynaliadwyedd, a'u hannog i fabwysiadu arferion rheoli cynaliadwy cadarn.

- Adolygu, adrodd yn flynyddol, ac ymdrechu'n barhaus i wella ein perfformiad cynaliadwyedd.

Mae enghreifftiau o sut mae'r Comisiynydd yn cynnal stiwardiaeth gynaliadwy wedi eu nodi isod:

- Defnyddio ynni - fel un o nifer o denantiaid mewn bloc bach o swyddfeydd modern, nid y'n bosibl cael rheolaeth lawn ar gyfleusterau dŵr, gwres a golau. Fodd bynnag, mae yna falfiau a reolir gan thermostatau ar yr holl reiddiaduron, gosodwyd bylbiau golau arbed ynni a goleuadau sy'n synhwyro symudiad mewn rhai rhannau o amgylchedd y swyddfa.
- Defnyddio cerbydau - nid yw'r swyddfa yn gweithredu unrhyw gerbydau, ond mae'n annog llogi cerbydau ar gyfer teithiau hir er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd. Anogir y staff i rannu cerbydau ar gyfer teithiau swyddogol pan fo hynny'n ymarferol. Pan fo'n briodol, anogir defnyddio cludiant cyhoeddus.
- Cyfarfodydd - Osgoi teithio'n ffisegol i gyfarfodydd pan fo dewisiadau eraill ar gael ac yn ymarferol, megis defnyddio telegynadledda,

cynadledda fideo neu we gamerâu, ac amseru cyfarfodydd yn effeithlon er mwyn osgoi teithiau lluosog.

- Rheoli papur - mae gan yr holl staff fynediad i e-bost a'r rhyngrwyd, ac mae defnyddio mewnrwyd swyddfa yn rhoi mynediad i wybodaeth heb fod angen system ddosbarthu papurau. Lleihau ein defnydd o bapur a deunyddiau traul eraill yn y swyddfa, er enghraifft drwy ddefnyddio dwy ochr pob papur a ddefnyddir, a chanfod cyfleoedd i leihau gwastraff.
- Cynhyrchion - anogir cyflenwyr i ddefnyddio cynhyrchion amgylchedd gyfeillgar pan fo'n bosibl. Mae'r Comisiynydd yn defnyddio cynhyrchion papur amgylcheddol gyfeillgar megis papur ac amlenni wedi'u hailgylchu. Mae'r gwaith o lanhau'r swyddfa yn cael ei wneud gan ddefnyddio cynhyrchion amgylcheddol gyfeillgar.
- Gwaredu Gwastraff - defnyddir gweithdrefnau ar gyfer ailgylchu deunyddiau, yn cynnwys papur, cardfwrdd a rhai plastigau, a threfniadau ar gyfer gwaredu gwastraff bwyd. Mae papur sy'n cynnwys gwybodaeth sensitif yn cael ei waredu drwy ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol oherwydd yr ymrwymiad i gynnal cyfrinachedd a geir yn y ddeddfwriaeth sy'n ein galluogi. Mae gan fy swyddfa dystysgrif cyflawniad amgylcheddol sy'n ardystio ein rhaglen garpio ac ailgylchu yn flynyddol.
- Addysg - mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i gynnal sesiynau hyfforddiant addysgol ar gyfer aelodau staff ar faterion mewn perthynas â chynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys sut mae cyflogeion yn gallu cyfrannu yn ystod oriau gwaith ac yn ystod eu bywydau y tu allan i'r gweithle.
- Arferion gwaith - cyfrannu er mwyn ceisio gwrthbwyso allyriadau carbon sy'n deillio o'n gweithgaredd.

2.0 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Er nad yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gorff cyhoeddus sydd wedi ei ymrwymo gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i'r Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy a amlinellir yn Adran 5 y Ddeddf (Gweler Atodiad A).

Drwy weithredu yn unol ag Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, bydd y Comisiynydd yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu cwrdd heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn i ddatblygiad cynaliadwy, bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi cyfres o 'amcanion llesiant a chynaliadwyedd' drwy gyfrwng y Datganiad Polisi Cynaliadwyedd. Bydd yr amcanion hyn yn helpu i ategu'r 'Amcanion Llesiant' a amlinellir yn Adran 4 y Ddeddf (Gweler Atodiad B).

3.0 Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016

Fel awdurdod cyhoeddus o dan Adran 6 Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau yng Nghymru (Gweler Atodiad C).

O dan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi cynllun sy'n nodi'r camau fydd yn cael eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ymgorffori yn Natganiad Polisi Cynaliadwyedd y Comisiynydd a bydd yn cael ei adolygu bob tair blynedd ochr yn ochr ag adroddiad ar sut mae'r Comisiynydd wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei lunio cyn diwedd 2019, fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf.

4.0 Amcanion Llesiant a Chynaliadwyedd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ymrwymedig i ddeall, gwella a chyfathrebu cynaliadwyedd a sicrhau bod yr holl gyflogeion yn ymgysylltu â'r broses hon.

Er mwyn bodloni'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014 a'r dyletswyddau o dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016, bydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn:

- Gweithio ar gadw Gwobr Iechyd y Gweithle Bach Lefel Aur er mwyn darparu strwythur ar gyfer gwella ein perfformiad cynaliadwyedd yn barhaus. (Cymru ffyniannus; Cymru iachach)
- Addysgu cyflogeion am bwysigrwydd ymwybyddiaeth amgylcheddol a bioamrywiaeth drwy gyfrwng ymgyrchoedd rheolaidd a hyrwyddo gweithgareddau megis ailgylchu a chynllun seiclo i'r gwaith. (Cymru gydnerth)
- Sicrhau bod cyflogeion yn ymgysylltu â phrosiectau bioamrywiaeth fel rhan o ymarferiad adeiladu tîm. (Cymru gydnerth)
- Amcanu at leihau'r defnydd o drydan bob blwyddyn (fel tenant mewn adeilad a rennir, nid oes gan y Comisiynydd reolaeth lwyr ar

y defnydd o ddŵr, gwres a golau). Byddir yn monitro drwy ddefnyddio darlleniadau mesuryddion yn fisol. (Cymru ffyniannus)

- Amcanu at wneud y mwyaf o gyfleoedd i ailgylchu gwastraff yn cynnwys caglu plastig, bwyd a phapur yn wythnosol, casglu gwastraff papur cyfrinachol a gwaredu batris a chetris argraffyddion ddwywaith y mis. (Cymru gydnerth)
- Amcanu at greu cynnydd bob blwyddyn yn nifer y cyflogeion sy'n defnyddio dulliau teithio carbon isel (megis cerdded, seiclo, rhannu cerbyd a theithio ar gludiant cyhoeddus) drwy ddatblygu a hyrwyddo Cynllun Teithio sefydliadol, yn cynnwys addysgu ynghylch buddion amgylcheddol teithio carbon isel. (Cymru ffyniannus)
- Integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth ddewis cyflenwyr a gwasanaethau i ddarparu cynhyrchion a/neu wasanaethau. (Cymru ffyniannus)
- Monitro a chofnodi: defnydd o drydan, lefelau ailgylchu a lefelau dulliau teithio carbon isel ymysg cyflogeion er mwyn hwyluso gwerthuso perfformiad amgylcheddol, a darparu diweddariadau i'r Tîm Rheoli Strategol yn chwarterol. (Cymru ffyniannus)
- Parhau i weithio â chyflogeion a chyflenwyr er mwyn gwneud gwelliannau parhaus drwy hyrwyddo mentrau ac arferion cynaliadwy. (Cymru ffyniannus)

Polisïau Cysylltiedig

Seiclo i'r Gwaith;

Cynllun Teithio;

Teithio a Chynhaliaeth;

Atodiad A: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Adran 5 'Yr egwyddor datblygu cynaliadwy

5 Yr egwyddor datblygu cynaliadwy

(1) Yn y Ddeddf hon, mae unrhyw gyfeiriad at y ffaith bod corff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy" yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

(2) Er mwyn gweithredu yn y modd hwn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pethau canlynol—

(a) pwysigrwydd cydbwyso anghenion y tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor, yn enwedig pan allai pethau a wneir i ddiwallu anghenion tymor byr gael effaith niweidiol yn yr hirdymor;

(b) yr angen i gymryd ymagwedd integredig, drwy ystyried—

(i) ym mha ffordd y gallai amcanion llesiant y corff effeithio ar bob un o'r nodau llesiant;

(ii) effaith amcanion llesiant y corff ar ei gilydd neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill, yn arbennig pan all camau a gymerir gan y corff gyfrannu at gyflawni un amcan ond y gall fod yn niweidiol i gyflawni un arall;

(c) pwysigrwydd cynnwys personau eraill sydd â diddordeb mewn cyrraedd y nodau llesiant a sicrhau bod y personau hynny'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth—

(i) Cymru (pan fo'r corff yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gyfan), neu

(ii) y rhan o Gymru y mae'r corff yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hi;

(d) ym mha ffordd y gallai cydlafurio ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff yn gweithio ar y cyd) gynorthwyo'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion;

(e) ym mha ffordd y gallai defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y corff neu amcanion corff arall.

Gweler y fersiwn llawn o'r Ddeddf yma

Atodiad B: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Adran 4 'Y nodau Llesiant'

Mae'r nodau llesiant wedi eu nodi a'u disgrifio yn Nhabl 1—

Nod	**Disgrifiad o'r nod**
Cymru lewyrchus.	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth.	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach.	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal.	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus.	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Atodiad C: Environment (Wales) Act 2016 – Adran 6 ‘Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau’

Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

(1) Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i’r graddau y bo hynny’n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny’n briodol.

(2) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ystyried cydnerthedd ecosystemau, a’r agweddau a ganlyn yn benodol—

(a) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;

(b) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;

(c) graddfa ecosystemau;

(d) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a’u gweithrediad);

(e) gallu ecosystemau i addasu.

(3) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i—

(a) arfer swyddogaeth gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, neu

(b) arfer un neu ragor o swyddogaethau barnwrol llys neu dribiwnlys.

(4) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1)—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron ac unrhyw un neu ragor o adrannau’r llywodraeth roi sylw i Gonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992, a

(b) rhaid i unrhyw awdurdod cyhoeddus arall roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.

(5) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau’r llywodraeth roi sylw i—

(a) y rhestr a gyhoeddir o dan adran 7;

(b) yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddir o dan adran 8;

(c) unrhyw ddatganiad ardal a gyhoeddir o dan adran 11 ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal gyfan neu ran o ardal y mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hi.

(6) Rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud er mwyn cydymffurfio ag is-adran (1).

(7) Rhaid i awdurdod cyhoeddus, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio ag is-adran (1).

(8) O ran awdurdod cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynllun o dan is-adran (6)—

(a) rhaid iddo adolygu'r cynllun yng ngoleuni pob adroddiad a gyhoeddir ganddo o dan is-adran (7), a

(b) caiff adolygu'r cynllun unrhyw bryd.

(9) Yn yr adran hon—

- "Minister of the Crown" ("*Gweinidog y Goron*") has the same meaning as in the Ministers of the Crown Act 1975 (c. 26);
- ystyr "awdurdod cyhoeddus"("*public authority*") yw—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) Prif Weinidog Cymru;

(c) Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru;

(d) unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron;

(e) corff cyhoeddus (gan gynnwys un neu ragor o adrannau'r llywodraeth, awdurdod lleol, awdurdod cynllunio lleol a phanel cynllunio strategol);

(f) person sy'n dal swydd—

(i) o dan y Goron,

(ii) a grëwyd neu sy'n parhau mewn bodolaeth o ganlyniad i Ddeddf gyffredinol gyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Senedd y DU, neu

(iii) y telir tâl cydnabyddiaeth mewn perthynas â hi allan o arian a ddarperir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Senedd y DU;

(g) ymgymerwr statudol;

Gweler y fersiwn llawn o'r Ddeddf yma

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Cynllun Gweithredu Polisi Cynaliadwyedd 2017-2019

Gweithredu Angenrheidiol	Swyddog Arweiniol	Amserlen	Mesur	Tystiolaeth
Adrodd ar gydymffurfiaeth â Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 - **gofyniad cyfreithiol**	Prif Swyddog Gweithredu	Erbyn diwedd 2019	Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am gynaliadwyedd	Mae'r adroddiad blynyddol wedi cael ei gyhoeddi ar y wefan
Gweithio ar gadw Gwobr Iechyd y Gweithle Bach Lefel Aur er mwyn darparu strwythur ar gyfer gwella ein perfformiad cynaliadwyedd yn barhaus.				
Asesu'r gofynion er mwyn cadw'r wobr Lefel Aur a sefydlu cynllun gweithredu er mwyn bodloni'r gofynion hynny pan fônt yn cael eu gwerthuso yn 2018.	Prif Swyddog Gweithredu	Sefydlu cynllun gweithredu - Ebrill 2017	Cadw'r wobr Lefel Aur ym mis Mai 2018	Adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cadarnhau cadw'r wobr

Addysgu cyflogeion am bwysigrwydd ymwybyddiaeth amgylcheddol a bioamrywiaeth drwy gyfrwng ymgyrchoedd rheolaidd a hyrwyddo gweithgareddau.				
Bydd staff yn cael gwybodaeth am y cynllun seiclo i'r gwaith	Prif Swyddog Gweithredu	Wrth gynefino	Nifer aelodau'r staff sy'n defnyddio'r cynllun beicio i'r gwaith Nifer aelodau'r staff sy'n seiclo i'r gwaith	Polisi ar rannu ceir Staff yn cael gwybod adeg cynefino Aelod o staff yn hyrwyddwr seiclo – cynnal digwyddiadau seiclo cymdeithasol
Bydd ailgylchu gwastraff bwyd yn cael ei hyrwyddo yn y swyddfa drwyddi draw yn cynnwys gosod arwyddion at ddiben lleihau gwastraff	Prif Swyddog Gweithredu	Parhaus	Arwyddion sy'n hyrwyddo ailgylchu yn gwbl weledol ym mhob pwynt gwastraff Staff yn ymwybodol o gyfleoedd i ailgylchu yn y gwaith Staff yn ymwybodol o finiau gwastraff bwyd	
Staff sy'n gyfrifol am archebu offer swyddfa i dderbyn gwybodaeth am gynnyrch amgylcheddol gyfeillgar, megis papur wedi'i ailgylchu	Prif Swyddog Gweithredu	Trafodwyd mewn cyfarfod 1 i 1 ym mis Mehefin 2017	Wedi cynnal cyfarfod diweddaru gyda'r Prif Swyddog Gweithredu Papur wedi'i ailgylchu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyhoeddiadau ac argraffu	Archebu papur wedi'i ailgylchu gan y cwmni deunyddiau swyddfa

Bydd un cyfarfod tîm y flwyddyn yn cael ei neilltuo ar gyfer hyrwyddo gwahanol elfennau o bolisi cynaliadwyedd y Comisiynydd	Prif Swyddog Gweithredu	Tri chyfarfod - 2017, 2018, 2019	Cyfarfodydd tîm a gynhaliwyd Pynciau a drafodwyd: 2017: Defnyddio ynni yn y swyddfa 2018: Seiclo – gan Sustrans Cymru 2019: Dim gwastraff	
Sicrhau bod cyflogeion yn ymgysylltu â phrosiectau bioamrywiaeth fel rhan o ymarfer adeiladu tîm.				
Bydd prynhawn i ffwrdd yn cael ei drefnu ar gyfer y staff er mwyn cymryd rhan mewn ymarfer sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth	Prif Swyddog Gweithredu	Erbyn diwedd 2019	Cynhaliwyd y prynhawn i ffwrdd	
Anelu at ddefnyddio llai o drydan bob blwyddyn (fel tenant mewn adeilad a rennir, nid oes gan y Comisiynydd reolaeth lwyr ar y defnydd o ddŵr, gwres a golau). Bydd mesuryddion yn cael eu darllen yn fisol i fonitro hyn.				
Addysgu staff am leihau'r defnydd o ynni e.e. diffodd cyfrifiaduron, diffodd goleuadau mewn ystafelloedd cyfarfod pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, dim ond argraffu deunydd sydd ei angen	Prif Swyddog Gweithredu	Parhaus	Nodiadau atgoffa'n cael eu hanfon drwy e-bost, hysbysfwrdd a/neu gyfarfodydd tîm Defnydd yn cael ei leihau wrth gymharu'n flynyddol	Wedi monitro'r defnydd

Anelu at wneud y mwyaf o gyfleoedd i ailgylchu gwastraff yn cynnwys caglu plastig, bwyd a phapur yn wythnosol, casglu gwastraff papur cyfrinachol a gwaredu batris a chetris argraffyddion ddwywaith y mis.				
Archwilio cyfleoedd i ailgylchu mwy a sicrhau bod staff yn ymwybodol o beth ellir ei ailgylchu er mwyn lleihau gwastraff	Prif Swyddog Gweithredu	Hydref 2017	Mwy o gyfleoedd i ailgylchu o'i gymharu â'r lefel bresennol	
Anelu at gynyddu nifer y cyflogeion sy'n defnyddio dulliau teithio carbon isel bob blwyddyn (megis cerdded, seiclo, rhannu cerbyd a theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) drwy ddatblygu a hyrwyddo Cynllun Teithio sefydliadol, yn cynnwys addysgu ynghylch buddion amgylcheddol teithio carbon isel.				
Hyrwyddo Cynllun Teithio'r Comisiynydd ymysg staff ac amlygu buddion defnyddio dulliau teithio carbon isel e.e. defnyddio mwy ar drafnidiaeth gyhoeddus i gyfarfodydd	Prif Swyddog Gweithredu	Gorffennaf bob blwyddyn	Cynnydd blynyddol yng nghanran y staff sy'n defnyddio dulliau teithio carbon isel	Cafodd y cynllun teithio ei ddiweddaru ym mis Gorffennaf 2019
Gwrthbwyso ôl troed carbon y sefydliad drwy ddefnyddio prosiectau gwrthbwyso carbon o safon uchel	Prif Swyddog Gweithredu	Yn flynyddol	Y gwrthbwyso yn cael ei gyfrifo a'i gyfrannu	Wedi cael tystysgrif ar gyfer 2017/18 a 2018/19

Integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth ddewis cyflenwyr a gwasanaethau i ddarparu cynnyrch a/neu wasanaethau.				
Cynnwys ymrwymiad i weithredu Polisi Cynaliadwyedd y Comisiynydd gyda chontractwyr	Prif Swyddog Gweithredu / Pennaeth Cyllid ac Adnoddau	Parhaus	Contractau am gynnyrch/gwasanaethau yn cynnwys ymrwymiad i gynaliadwyedd Contract glanhau i ddefnyddio cynnyrch amgylcheddol gyfeillgar	Contract glanhau wedi cael ei newid i ddefnyddio cynnyrch amgylcheddol gyfeillgar ym mis Ionawr 2017.
Monitro a chofnodi: defnydd o drydan, lefelau ailgylchu a lefelau dulliau teithio carbon isel ymysg cyflogeion er mwyn hwyluso gwerthuso perfformiad amgylcheddol				
Monitro a chofnodi'r defnydd o drydan, lefelau ailgylchu a defnyddio dulliau teithio carbon isel ac adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli	Prif Swyddog Gweithredu	Parhaus	Y Prif Swyddog Gweithredu wedi casglu ac adolygu data	